ANNIBYNIAETH MAE'N BOSIBL.

Yes cymru

1. Onid yw Cymru yn rhy fach i fodoli fel gwlad annibynnol?

Nid yw Cymru, gwlad o 3 miliwn o bobl, yn rhy fach i fodoli fel gwlad annibynnol. Mae'n ffaith fod **dros 100 o wledydd eraill annibynnol** yn y byd sy'n llai na Chymru.

O'r 10 gwlad gyfoethocaf o ran GDP y pen, mae **gan bob un boblogaeth sy'n llai na 10 miliwn**, mae gan 5 ohonynt boblogaeth sy'n llai na 5 miliwn, a 4 ohonynt boblogaeth sy'n llai na Chymru.

O wledydd yr Undeb Ewropeaidd, mae **8 o'r 10 mwyaf ffyniannus yn wledydd bychain.** Nid yw ffyniant economaidd bellach yn cael ei sicrhau trwy fod yn wlad fawr neu yn ymerodraeth, na thrwy ddefnyddio grym milwrol i gyrraedd marchnadoedd.

Nid oes cysylltiad bellach rhwng maint gwlad a'i llwyddiant economaidd.

2. Rydym ni'n gryfach gyda'n gilydd – pam chwalu Prydain?

Rydym eisiau bod yn **rhan lawn o'r gymuned ryngwladol**, yr Undeb Ewropeaidd a'r CU. Byddai Cymru annibynnol yn dal yn gymydog i wledydd eraill y Deyrnas Gyfunol. Bydd **cysylltiadau cryf cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn parhau** rhwng pobl gwledydd y DG. Y gwahaniaeth ydy y byddwn yn bartner llawn i'r gwledydd eraill gyda'n llais cryf ein hunain. Bydd hyn yn gwneud y berthynas yn gryfach.

3. Mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn teimlo'n Gymry a'n Brydeinwyr - fyddan nhw byth yn cefnogi annibyniaeth.

Yn y byd modern mae'n anorfod y bydd gan bobl yng Nghymru mwy nag un hunaniaeth. **Peth personol yw hunaniaeth**, ac y mae ar wahân i faterion atebolrwydd democrataidd. nid yw eich hunaniaeth bersonol, o reidrwydd, yn golygu eich bod yn cefnogi ffordd arbennig o gael eich llywodraethu.

Yes cymru **www.yes.cymru** **@YesCymru** **/YesCymru**

ANNIBYNIAETH MAE'N BOSIBL.

Yes cymru

4. Oni fyddai diffyg cyllidebol Cymru yn rhy fawr iddi ymdopi?

Mae gan y Deyrnas Gyfunol un o'r diffyg cyllidebol mwyaf ar hyn o bryd yn y byd datblygedig. Mae'r ddadl fod Cymru yn derbyn mwy mewn gwariant cyhoeddus nag sy'n cael ei dalu mewn trethi yn aml yn cael ei weld fel prawf na all Cymru dalu ei ffordd. Pan ystyriwch ddiffyg y DG gyfan **nid yw'r ddadl hon yn dal dŵr.**

Mae sawl her economaidd anodd yn wynebu Cymru wrth gwrs. Mae GVA Cymru ar hyn o bryd tua 72.2% o gyfartaledd y DG (2013). Yr her i'r sawl sy'n gwrthwynebu annibyniaeth ar y sail na all Cymru ei fforddio yw **esbonio sut y mae bod yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol wedi arwain at y sefyllfa economaidd wan hon.**

5. Does dim ots gan bobl am annibyniaeth. Mae'n tynnu sylw oddi wrth wir bynciau sydd o bwys i bobl.

Rydym ni'n credu fod **annibyniaeth i bobl Cymru yn ganolog i economi a chymdeithas ffyniannus.** Mae ansawdd gwasanaethau lleol, sicrwydd swyddi, tai fforddiadwy ac ati yn faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl, ac mae'n well o lawer ymdrin â hwy gan Lywodraeth Gymreig etholedig ac atebol.

6. Mae annibyniaeth yn amherthnasol y byd modern sydd wedi globaleiddio

Mae rhyng-ddibyniaeth gwledydd yn un o ffeithiau bywyd modern. Rydym eisiau chwarae ein rhan yn y gymuned ryngwladol. Fel y dywedodd Winnie Ewing o'r SNP, 'Stop the World, we want to get on' Mae globaleiddio nid yn unig yn gwneud **Cymru annibynnol yn berthnasol, ond ei gwneud yn fwy posibl.**

Byddai Cymru annibynnol yn dod yn aelod llawn o'r sefydliadau byd-eang (CU, UE, SMB ac ati) a byddai bod yn rhan o **economi byd-eang yn rhoi cyfle i Gymru ffynnu.** Nid yw bod yn rhan o wlad neu ymerodraeth fawr bellach yn fantais economaidd; mae gan wledydd bychain fynediad at farchnadoedd y byd.

Yes cymru **www.yes.cymru** **@YesCymru** **/YesCymru**

INDEPENDENCE
IT'S POSSIBLE.

Yes cymru

1. Isn't Wales too small to survive as an independent state?

Wales, a country of 3 million people, is not too small to survive as an independent country. It is a fact that there are **over 100 other independent countries** in the world that are smaller than Wales.

Of the top 10 wealthiest countries in the world in terms of GDP per capita, **all 10 have a population of less than 10 million**, 5 have a population of less than 5 million, and 4 have a smaller population than Wales.

Of the countries of the European Union, **8 of the top 10 most prosperous are small countries.** There is no longer a link between the size of a country and its economic success. That a small country the size of Wales can prosper is evident.

2. We're stronger together! Why break-up Britain?

We want to be a full part of the international community and of institutions such as the European Union and the UN. An independent Wales would still be a neighbour to the other countries of the United Kingdom. There will always be **strong, social, cultural and economic bonds** between the people of the countries of the UK.
The difference would be that we could be a partner to the other countries with our own voice being expressed. This would make for a stronger relationship.

3. Most people in Wales feel both Welsh and British - they will never support Welsh Independence.

In the modern world it is inevitable that people within Wales will have several identities. Identity is a personal thing and is separate from questions of democratic accountability. Personal identity does not necessitate support for a particular way of being governed.

INDEPENDENCE
IT'S POSSIBLE.

Yes cymru

4. Wouldn't Wales' budget deficit be too big for it to cope?

The UK currently has one of the biggest budget deficits in the developed world. The argument that Wales gets more in public spending than it pays in taxes is often seen as evidence that Wales cannot pay its own way. When you consider the deficit of the UK as a whole, **the argument does not stand up to scrutiny.**

There are undoubtedly economic challenges facing Wales. The current GVA of Wales is 72.2% of the UK average (2013). The challenge to those who oppose independence on the grounds that Wales cannot afford it is to explain why being part of the United Kingdom has led to this poor economic performance.

5. People don't care about independence. It's a distraction from real issues that matter to people.

We believe that independence for the people of Wales is **central to a prosperous economy and society.** The quality of local services, job security, affordable housing which are the issues that affect people's lives can be dealt with far better by an accountable, elected Welsh Government.

6. Independence is irrelevant in the modern globalised world?

The inter-dependence of countries is a fact of modern life. We want to **play our part in the international community.** As Winnie Ewing of the SNP put it: 'Stop the World, we want to get on'. Globalisation not only makes **an independent Wales relevant;** it also makes it a more viable prospect.

An independent Wales becoming a full member of global institutions such as the UN and playing a full part in the global economy would give Wales the opportunity to thrive. No longer does being a part of a large country or empire provide an economic advantage, small countries have access to the same global market.